**PWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion cyfarfod hybrid y Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd ddydd Llun, 14 Tachwedd 2022 am 4.30pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Aelodau Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd A. Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Bradwick | Y Cynghorydd L Ellis |
| Y Cynghorydd K Johnson | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd A O Rogers |
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd T Williams |

**Swyddogion oedd yn bresennol:-**

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol

**8 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**9 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Powell a J Turner

**10 Deddf Hawliau Dynol 1997 a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**11 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2022 yn rhai cywir.

## 12 Adolygiad o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac o Ddeddf Gamblo 2005

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned yr adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn trafod materion perthnasol mewn perthynas â Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 yn ystod y cyfnod rhwng 27 Mehefin ac 16 Hydref 2022, yn ogystal â materion ategol eraill sy'n codi o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Mae dadansoddiad o geisiadau ar gyfer Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro yn dangos bod 30 o drwyddedau personol newydd wedi'u dyrannu a bod nifer y ceisiadau'n parhau i gynyddu gan ein bod ni wedi gallu dechrau cynnal achlysuron yn y gymuned, fel oedd yn digwydd cyn cyfnod y pandemig, ers yr haf. Yn ogystal â hyn, mae nifer y marchnadoedd crefftau sy'n cael eu cynnal yn cynyddu ac mae rhai yn parhau i ddefnyddio'r broses achlysur dros dro os oes problemau yn codi o ran trwydded eiddo.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned wybod bod un cais wedi'i herio ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor, a hynny'n gais i Amrywio Trwydded Eiddo a oedd wedi cael ei wrthod. Nid yw'r ymgeisydd wedi cyflwyno cais am apêl. Doedd dim ceisiadau wedi'u herio yn ystod y cyfnod yma, fodd bynnag, mae yna sawl apêl gan Ymgeiswyr yr Hen Swyddfa Bost (Squares), Food For You a Mountain Ash Stores. Mae'r rhain yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd gwybod yn yr adroddiad diwethaf bod yr apêl ar gyfer cais Chippy Plus yn cael ei ystyried, ond o ganlyniad i drosglwyddo'r drwydded eiddo ar 26 Gorffennaf, 2022, penderfynwyd rhoi gorau i'r apêl.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned yr Aelodau at adran 4.3 yn yr adroddiad, lle mae arolygiadau o eiddo a thor rheolau'n cael eu hamlinellu. Cafodd 70 o safleoedd eu harolygu ledled y Fwrdeistref, ac roedd angen cynnal ymweliadau dilynol â nifer ohonyn nhw.

Cafodd yr Aelodau wybod bod gwaith rhagweithiol wedi cael ei gynnal, mae'r gwaith yma'n dangos cynnydd yn lefel cyflawniad ar gyfer eiddo a arolygwyd. Y ffigur erbyn hyn yw 90.66%, o'i gymharu â 89.7% yn ystod y cyfnodau blaenorol. Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda'r eiddo yma i sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod ymgyrch 'Gofynnwch am Angela' yn parhau i gael ei hyrwyddo ymhlith eiddo trwyddedig. Mae hyn yn cynrychioli cam cadarnhaol iawn tuag at dawelu meddwl y cyhoedd o ran diogelwch eiddo trwyddedig gan ddangos bod modd i'r cyhoedd fynd at staff am gymorth.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw at bwysigrwydd cynllun Pubwatch sy'n

parhau i fod yn gryf yn RhCT, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal ledled y Fwrdeistref. Mae Pubwatch Pontypridd wedi llwyddo i gyrraedd rownd derfynol Gwobrau Pubwatch Cenedlaethol am yr ail flwyddyn yn olynol. Cafodd Cadeirydd y grŵp ei wahodd i Dŷ'r Arglwyddi ar gyfer seremoni wobrwyo.

O ran nifer y cwynion a dderbyniwyd, mae'r rhain wedi parhau i fod yn broblemus ac mae ymddygiad cyffredinol ers y pandemig yn cyflwyno her i nifer o'n cymunedau. Yn ogystal â hyn, mae gan eiddo trwyddedig ran i'w chwarae wrth weithio tuag at amcanion trwyddedu a hyrwyddo amcanion trosedd ac anrhefn.

Cynhaliodd y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Achlysuron, grŵp amlasiantaeth, gyfarfod ym mis Medi i drafod yr achlysuron sy'n cael eu cynnal ledled y Fwrdeistref Sirol hyd at ddiwedd 2022. Mae angen gwneud hyn er mwyn deall natur yr achlysuron a rhoi'r cyngor priodol o'r cychwyn i sicrhau bod yr achlysur yn ddiogel.

O ran cwynion, ymholiadau a chanllawiau, maent wedi parhau yn ystod y cyfnod yma, ac yn cynnwys y canlynol:

- Cynhaliwyd ymweliad ag eiddo trwyddedig ar y cyd â'r Adran Safonau Masnach yn ardal Porth yn dilyn honiadau ynghylch gwerthu nwyddau i bobl dan oed. Yn dilyn yr ymweliad yma, roedd Heddlu De Cymru wedi cynnal ymweliad arall. Nid oedd unrhyw gwsmeriaid dan oed ar y safle.
- Cynhaliwyd ymweliad â safle trwyddedig yn ardal Beddau, ar y cyd â Heddlu De Cymru, i wirio a oedd cwsmeriaid dan oed yn bresennol. Doedd dim unigolion dan oed yn bresennol yn yr eiddo ar y pryd.

Cafodd yr Aelodau wybod am lwyddiant tafarn The Lion  yn Nhreorci, a enillodd gwobr 'Tafarn Gymunedol Orau'r Deyrnas Unedig'. Roedd y gystadleuaeth yn agored i dros 50,000 o dafarndai. Bu cryn gystadlu amdani a’r wobr gyntaf oedd gwobr ariannol gwerth £10,000, sydd i’w rhoi i elusen, achos da neu fenter leol.  Fodd bynnag, mae'r perchennog wedi penderfynu rhoi'r enillion i'r dref gyfan ar gyfer y Nadolig.

O ran adennill ffioedd blynyddol, cafodd yr Aelodau wybod bod taliadau ar gyfer ffioedd blynyddol yn parhau i fod ar y lefelau a disgwylir ac mae swyddogion yn monitro'r sefyllfa, gan anfon negeseuon atgoffa a chysylltu â'r unigolion dros y ffôn i adennill y taliad lle bo angen. Yn ogystal â hyn, mae gan yr Awdurdod broses gadarn iawn o ran sicrhau bod y taliad yn cael ei dderbyn a gweithredu os nad yw'n derbyn taliad, trwy atal trwyddedu dros dro lle bo angen. Mae trwyddedau sawl eiddo wedi cael eu hatal dros dro yn ystod y cyfnod yma, sydd wedi arwain at ymateb a thaliad gan yr eiddo.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned yr Aelodau at adran 5.1 o'r adroddiad, gan

rannu diweddariad mewn perthynas â Deddf Gamblo 2005.

Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i ddiolch i'r Garfan Drwyddedu am ei gwaith caled parhaus, ac felly **PENDERFYNWYD:-**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Trwyddedu 2003** a;
2. Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Gamblo 2005.**

**13 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**14 Y Trwyddedau a'r Cofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth pwerau wedi'u dirprwyo ar gyfer y cyfnod 27.06.22 - 16.10.22**

Rhannodd y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fanylion am drwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 27 Mehefin 2022 i 16 Hydref 2022.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.50pm**

**Y CYNGHORYDD A FOX**
**CADEIRYDD.**